# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynadledda A - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2017

Amser: 09.35 - 12.43

# WRB(11)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Rebecca Hardwicke, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Carys Rees, Partner Busnes Adnoddau Dynol yr Aelodau<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Tîm clercio: | Daniel Collier, Clerc dros dro<br>Sian Giddins, Dirprwy Glerc<br>Lleu Williams, Clerc |
| Tystion: | Dr Huw Pritchard, Canolfan Llywodraethiant Cymru<br>Dr Diana Stribu, ar rhan Canolfan Llywodraethiant Cymru<br>Naomi White, Canolfan Llywodraethiant Cymru |

## 1 Eitem i'w drafod: Trafod y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn yr adolygiad i nodi rhwystrau a chymhellion o ran ymgeisio mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Huw Pritchard, Dr Diana Stribu a Naomi White i'r cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd fod y tri yn cynrychioli Canolfan Llywodraethiant Cymru y dyfarnwyd y tendr iddi i gynnal yr adolygiad ar ran y Bwrdd.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd i'r ddirprwyaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am eu gwaith hyd yn hyn ac amlinellu'r camau nesaf yn yr adolygiad i nodi rhwystrau a chymhellion o ran ymgeisio mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 2 Eitem ar gyfer penderfyniad: Trafod Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd Taliadau 2016-17

2.1 Trafododd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol drafft y Bwrdd Taliadau 2016-17 ac, yn amodol ar fân newidiadau, cytunodd i gyhoeddi'r adroddiad.

**Cam gweithredu**:
Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn diwygio'r adroddiad drafft a pharatoi'r adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi.

## 3 Eitem i'w drafod: Adolygiad o strwythur gyrfa a thelerau ac amodau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

3.1 Trafododd y Bwrdd y papur yn amlinellu sut y gallai strwythuro ei adolygiad o strwythur gyrfa a thelerau ac amodau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad. Cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i lywio'r adolygiad, gan gynnwys canlyniadau'r arolwg diweddar.

3.2 Cytunodd y Bwrdd i ddychwelyd at y mater yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

**Camau gweithredu**:
Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi papur cwmpasu diwygiedig i'r Bwrdd ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

## 4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Nododd y Bwrdd y canlynol:

- gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch bwriad y Comisiwn i gyflwyno deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad a'r newid yn sgil hynny i enw'r Bwrdd (Papur i'w nodi 1);
- adroddiad y Tasglu Digidol, 'Creu Dialog Digidol', i gynorthwyo trafodaeth y Bwrdd o'i strategaeth ymgysylltu yn y dyfodol (Papur i'w nodi 2);
- 'Adroddiad ar Senedd yr Alban' y Comisiwn ar Ddiwygio Seneddol, yn arbennig yr argymhellion ynglŷn â thaliadau i Aelodau (Papur i'w nodi 3).